

Diwygio'r canfas blynyddol: gwerthusiad o'r cynlluniau peilot

Mehfin 2018

Fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn print bras neu fersiwn Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.

Cynnwys

Diwygio'r canfas blynyddol: gwerthusiad o'r cynlluniau peilot.....	1
Model 1: Llythyrau Hysbysu Cartrefi.....	5
Model 2: Canfasio drwy e-bost	8
Model 3: Canfasio dros y ffôn.....	11
Model 4: Canfasio a arweinir gan ddata.....	14

Diwygio'r canfas blynyddol: gwerthusiad o'r cynlluniau pilot

Cyd-destun

Yr angen am ddiwygio'r canfas

1.1 Yn hanesyddol, y canfas blynyddol fu prif ddull Swyddogion Cofrestru Etholiadol o gynnal eu cofrestri etholiadol.

1.2 Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, o 1 Gorffennaf bob blwyddyn, anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref i bob cartref yn eu hardal sy'n dweud pwy sydd wedi'i gofrestru yn y cyfeiriad hwnnw ac yn gofyn am i newidiadau gael eu nodi lle y bo angen. Pan na chânt ymateb i'r ffurflen gychwynnol honno mae'n rhaid iddynt anfon dau nodyn atgoffa drwy'r post ac ymweld â'r cartref er mwyn annog ymateb. Mae hyn yn golygu, yn dibynnu pryd neu os bydd cartref yn ymateb, y gellir cysylltu â nhw hyd at bedair gwaith yn ystod y canfas.

1.3 Yn sgil cyflwyno cofrestru etholiadol unigol a chofrestru ar-lein, mae wedi dod yn amlwg bod y canfas traddodiadol o gartrefi, yn unol â'r gyfraith, wedi mynd yn llai effeithlon ac yn fwy costus i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ei gynnal. Mae'r Comisiwn wedi tynnu sylw at y risg sy'n gysylltiedig â pharhau â'r dull presennol, costus o ganfasio ar adeg pan fo cyllidebau awdurdodau lleol o dan bwysau. Ym mis Gorffennaf 2016, daeth ein hasesiad o gywirdeb a chyflawnder cofrestri i'r casgliad nad yw'r system bresennol yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Cefnogir y farn hon gan lawer o Swyddogion Cofrestru Etholiadol a grwpiau rhanddeiliaid eraill, megis Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol.

1.4 Mae rhyw fath o gyswllt ar lefel y cartref yn debygol o fod yn ddull allweddol o hyd a ddefnyddir gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol i archwilio eu cofrestri, adolygu cywirdeb eu cofnodion a chael gwared ar gofnodion diangen, o leiaf yn y byrdymor i'r tymor canolig. Fodd bynnag, mae potensial i gyflwyno newidiadau a fydd yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y canfas blynyddol. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn symud cyfeiriad bob blwyddyn, ac ni ddylai fod angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol wario symiau mawr o arian cyhoeddus i gadarnhau hyn. Mae'n bosibl y bydd modd iddynt ddefnyddio arbedion sy'n deillio o brosesau canfasio mwy effeithlon i dargedu gweithgarwch er mwyn helpu pobl sy'n llai tebygol o gofrestru i bleidleisio.

Sefydlu cynlluniau peilot

1.5 Mae Llywodraeth y DU yn ymgymryd â rhaglen waith sy'n canolbwyntio ar sut y gall y system cofrestru etholiadol sicrhau gwell canlyniadau i ddinasyddion. Fel rhan o'r rhaglen hon, sefydlodd y Llywodraeth gyfres o gynlluniau peilot yn 2016 a 2017, er mwyn profi newidiadau i brosesau presennol y canfas blynyddol, gan ddefnyddio darpariaethau yn Neddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 (Deddf 2013).

1.6 Sefydlwyd y cynlluniau peilot gan Swyddfa'r Cabinet a Swyddogion Cofrestru Etholiadol unigol. Ym mhob achos, roeddent yn cynnwys grŵp 'trin' o gartrefi a fu'n destun proses ddiwygiedig y canfas a grŵp rheoli o gartrefi a fu'n destun proses arferol y canfas presennol. Cafodd cartrefi eu neilltuo ar hap i bob grŵp. Dyma'r dull a ffeirir ar gyfer profi ymyriadau er mwyn i'w gwneud yn bosibl i ganlyniadau'r grŵp trin gael eu cymharu â chanlyniadau'r grŵp rheoli.

Gwerthusiad y Comisiwn Etholiadol

Dull gweithredu

1.7 Mae'n ofynnol i'r Comisiwn werthuso unrhyw gynlluniau peilot o dan y darpariaethau a grybwyllir uchod.¹ Nodwyd ein canfyddiadau o gynlluniau peilot 2016 mewn adroddiad blaenorol.² Mae Deddf 2013 yn nodi, yn adran 8(2), mai amcan unrhyw newidiadau i'r canfas ddylai fod helpu swyddogion cofrestru ym Mhrydain Fawr i gadarnhau: (a) enwau a chyfeiriadau personau nad ydynt wedi'u cofrestru mewn cofrestr ond y mae ganddynt yr hawl i gael eu cofrestru; (a) y personau hynny sydd wedi'u cofrestru mewn cofrestr ond nad oes ganddynt yr hawl i gael eu cofrestru.³

1.8 Rydym wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth i lywio ein gwerthusiad o gynlluniau peilot 2017, gan gynnwys, yn bwysicaf oll, ddata gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol a chyfweliadau â nhw. Wrth asesu pob model isod, rydym yn ystyried i ba raddau y maent wedi cyfrannu at y ddau faes hyn a nodir yn y ddeddfwriaeth – cyflawnder a chywirdeb y cofrestru. Rydym hefyd wedi ystyried y gwahaniaeth o ran cost rhwng model y cynllun peilot a'r canfas arferol.

Cyfyngiadau

1.9 Mae ein gwerthusiad yn cynnwys nifer o gyfyngiadau y dylid eu nodi.

1.10 Yn gyntaf, nid yw cyfanswm nifer yr awdurdodau lleol dan sylw yn fawr (24) a phrofodd nifer lai ohonynt bob un o'r pedwar model a dreialwyd. Wrth ddod i gasgliadau ar sail y cynlluniau peilot hyn, mae angen i ni fod yn ofalus ynglŷn â pha mor gynrychioliadol yw'r canfyddiadau. Yn ail, mae pob model a dreialwyd yn cynnwys mwy nag un newid o broses arferol y canfas presennol.

¹ <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/610/contents/made>

² https://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0003/232761/Electoral-registration-report-July-2017.pdf

³ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2013/6/section/8>

Er enghraifft, defnyddio e-bost yn lle cysylltiadau drwy'r post ond hefyd ddefnyddio ffurflenni wedi'u diwygio a llai o gyswllt yn gyffredinol. Gallwn ystyried sut y gweithiodd elfennau gwahanol pob model ond nid yw'n bosibl bob amser ddod i gasgliad clir ynglŷn ag effeithiolrwydd elfennau unigol.

1.11 Yn olaf, dim ond casgliadau petrus y gallwn ddod iddynt mewn perthynas â chostau'r modelau a dreialwyd. Nid yw'r data ariannol a ddarparwyd gan yr awdurdodau lleol, drwy Swyddfa'r Cabinet, yn ddigon cyson i ategu casgliadau manwl.

Ein casgliadau a'n hargymhellion

1.12 Credwn fod angen i Brydain Fawr wneud newidiadau mawr i'r system o gofrestru etholwyr. Mae ein gweledigaeth ar gyfer cofrestr fodern o etholwyr⁴ fel a ganlyn:

- Dylai ddefnyddio data cyhoeddus yr ymddiriedir ynddynt i sicrhau ei bod yn parhau'n gywir ac yn gyflawn drwy gydol y flwyddyn, ac ni ddylai ddibynnu ar weithredoedd unigolion.
- Dylai fod mor hawdd â phosibl i etholwyr sicrhau bod eu cofnod cofrestru yn gyfredol, yn enwedig cyn etholiadau a refferenda.

1.13 Yn y cyfamser, yn y byrdymor i'r tymor canolig, nid yw'r canfas presennol yn gynaliadwy. Mae'r cynlluniau peilot hyn wedi rhoi data pwysig i ni er mwyn helpu i lunio'r cam nesaf o newidiadau i'r broses cofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr.

1.14 Yn ein barn ni, nid oes unrhyw un o'r modelau peilot penodol yn barod i'w roi ar waith eto. Defnyddio data i alluogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i dargedu eu gweithgareddau canfasio sydd wedi cynnig y manteision mwyaf posibl a dylai'r Llywodraeth ganolbwyntio ar ddatblygu'r dull gweithredu hwn.

1.15 Dengys tystiolaeth o'r cynlluniau peilot hyn y gallai'r dull gweithredu hwn helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ddefnyddio eu hadnoddau'n fwy effeithlon. Dangosodd y defnydd o ddata oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ystod y newid i gofrestru etholiadol unigol hefyd sut y gall data helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol ganolbwyntio eu hymdrech lle mae ei hangen fwyaf.

1.16 Rydym wedi nodi newidiadau a fyddai'n gwneud canfasio a arweinir gan ddata yn fwy effeithiol ac ymarferol. Dylai Llywodraeth y DU weithio gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol, gweinyddwyr etholiadol a'u cyflenwyr meddalwedd i wneud y newidiadau hyn. Dylai hefyd weithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban sydd â chyfrifoldeb am gyflwyno newidiadau mewn cysylltiad â chofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru a'r Alban.

⁴ Esboniwyd ein syniadau a'n cynlluniau ar gyfer eu datblygu yn yr adroddiadau hyn: Y Comisiwn Etholiadol (2016) [Cofrestru etholwyr Rhagfyr 2015 ym Mhrydain Fawr](#); Y Comisiwn Etholiadol (2017) [Dadansoddiad o gofrestru etholwyr Rhagfyr 2016 yn y Deyrnas Unedig](#)

1.17 Nodir ein hargymhellion penodol ar gyfer newidiadau isod.

Argymhelliad 1: Dylai'r Llywodraeth ystyried manteision defnyddio setiau data cenedlaethol a lleol er mwyn gwella'r canfas.

Dylai'r Llywodraeth ystyried pa setiau data sydd fwyaf tebygol o roi gwybodaeth ddibynadwy i Swyddogion Cofrestru Etholiadol am ba gyfeiriadau lle nad yw preswylwyr wedi newid ers y canfas diwethaf. Dylai gynnwys ffynonellau data cenedlaethol fel System Gwybodaeth Cwsmeriaid yr Adran Gwaith a Phensiynau. Dylai hefyd gynnwys ffynonellau data lleol fel cofnodion y dreth gyngor a'r budd-dal tai.

Argymhelliad 2: Dylai'r Llywodraeth ystyried pa sgiliau a hyfforddiant sydd eu hangen ar weinyddwyr etholiadol i reoli data yn effeithiol ac yn ddiogel.

Os bydd mwy o ddefnydd o ddata i baru etholwyr yn y dyfodol, bydd angen i weinyddwyr etholiadol allu rheoli'r prosesau technegol hyn yn hyderus. Dylai'r Llywodraeth weithio gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a Chymdeithas Aseswyr yr Alban er mwyn nodi camau nesaf effeithiol. Bydd y Comisiwn Etholiadol hefyd yn cefnogi unrhyw newidiadau i ymarfer drwy arweiniad a chyngor.

Argymhelliad 3: Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol gymhwyso trothwy paru llym ar gyfer unrhyw ganfasio a arweinir gan ddata.

Mae angen dull cyson a chadarn o baru neu beidio â pharu etholwyr a chartrefi. Byddai hyn yn lleihau'r risg o gyfraddau ymateb gwael i'r canfas gan eiddo lle mae'r data wedi cael eu paru â manylion preswylwyr drwy gamgymeriad. Dylai'r Llywodraeth ystyried cyflwyno trothwy paru llym mewn rheoliadau, o leiaf yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf o unrhyw ddull gweithredu newydd.

Argymhelliad 4: Dylai'r Llywodraeth ystyried caniatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddefnyddio opsiynau cysylltu drwy e-bost neu dros y ffôn ar gamau gwahanol o broses y canfas.

Byddai hyn yn ychwanegol at y prosesau gorfodol drwy'r post neu drwy gyswllt ffisegol. Byddai'n rhoi adnoddau mwy effeithlon ac effeithiol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gysylltu â chartrefi ac etholwyr.

1.18 Yn ein barn ni, mae angen gwneud rhagor o waith i ystyried sut y gellir gwella cofrestru etholiadol fel proses drwy gydol y flwyddyn. Er mai dim ond y canfas blynyddol a ystyriodd y cynlluniau peilot hyn, mae'r broses cofrestru etholiadol yn mynd rhagddi drwy gydol y flwyddyn erbyn hyn. Er mwyn ategu newidiadau i'r canfas, gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd wneud rhagor i nodi pobl y mae angen iddynt gofrestru i bleidleisio drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi symud cyfeiriad neu sydd newydd gymhwyso i gael eu cofrestru.

Argymhelliad 5: Dylai'r Llywodraeth ystyried sut y gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddefnyddio data i wella gweithgarwch drwy gydol y flwyddyn.

Dylai'r Llywodraeth ystyried sut y gellid rhoi mynediad i Swyddogion Cofrestru Etholiadol at ddata defnyddiol gwasanaethau cyhoeddus eraill. Er enghraifft, byddai mynediad at ddata dibynadwy am bobl sydd wedi newid eu cyfeiriad yn ddiweddar drwy wasanaethau eraill y llywodraeth yn helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Gallai hyn gael ei roi iddynt bob mis neu bob chwarter. Yna, gallent ymgymryd â gweithgarwch wedi'i dargedu er mwyn annog y bobl hyn i ddiweddarau eu manylion cofrestru etholiadol.

Model 1: Llythyrau Hysbysu Cartrefi

Y model

1.19 Defnyddir Llythyrau Hysbysu Cartrefi gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol i hysbysu cartrefi o'r etholwyr cofrestredig yn y cyfeiriad. Fe'u defnyddir gan amlaf ar ôl i'r canfas ddod i ben a chyn etholiadau arfaethedig. Yn wahanol i Ffurflenni Ymholiad Cartrefi a ddefnyddir yn ystod y canfas, nid yw'n ofynnol ymateb oni bai bod y preswylwyr am hysbysu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol o unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r gofrestr etholwyr.

1.20 Yn y model hwn, roedd dull y grŵp trin yn cynnwys anfon un Llythyr Hysbysu Cartref i gartref heb unrhyw lythyrau atgoffa pellach. Os oedd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol reswm dros gredu bod y preswylwyr mewn cartref wedi newid (os oedd wedi cael cais newydd i gofrestru yn y cyfeiriad hwnnw, er enghraifft), gallai anfon Llythyr Hysbysu Cartref wedi'i ddiweddarau.⁵

1.21 Bwriadwyd i'r model hwn brofi a fyddai'r Llythyr Hysbysu Cartref yn ddull effeithiol o gynnal cofrestri mewn ardaloedd sydd â phoblogaeth fwy sefydlog, gan fod angen llai o newidiadau i'r cofrestri lle mae llai o symudiadau yn y boblogaeth. Hefyd, ni fyddai'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau ymatebion gan y mwyafrif o gartrefi lle na fu unrhyw newid yn eu manylion, gan ddileu o bosibl aneffeithlonrwydd a chost sylweddol yn y system.

⁵ Roedd y niferoedd yma yn fach ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn fanwl yn ein hasesiad.

Ein canfyddiadau

Yr effaith ar y cofrestri

1.22 Mae dau brif fetrig ar gael i asesu effaith dulliau'r grŵp rheoli a'r grŵp trin ar y cofrestri:

- cyfran y cartrefi a roddodd wybod am newid
- nifer yr etholwyr a ychwanegwyd at y cofrestri neu y tynnwyd eu henwau oddi ar y cofrestri.

1.23 Cafodd y grŵp o gartrefi a oedd yn rhan o'r grŵp rheoli a'r grŵp trin ei gynhyrchu ar hap ac felly ni ddylai fod yn wahanol i'w gilydd mewn ffordd systematig. Pe bai dulliau'r grŵp rheoli a'r grŵp trin yn gweithio cystal â'i gilydd byddem yn disgwyl gweld lefelau tebyg o gartrefi yn y ddau grŵp yn rhoi gwybod am newidiadau. Fodd bynnag, fel y dengys y tabl isod, o dan dull y grŵp trin – anfon Llythyrau Hysbysu Cartrefi – gwelwyd llawer llai o gartrefi yn rhoi gwybod am newid.

Tabl 1.1 Cartrefi yn rhoi gwybod am newidiadau i fanylion cofrestredig

Awdurdod Lleol	% y cartrefi a roddodd wybod am newid		Gwahaniaeth
	Grŵp rheoli	Grŵp trin	
Barrow in Furness	6.6%	2.6%	-4
Blaenau Gwent	13.9%	3.5%	-10.4
Dwyrain Dyfnaint	10.9%	5.8%	-5.1
Newcastle Upon Tyne	12.3%	2.7%	-9.6
Ryedale	16%	5%	-11
De Holland	7.9%	3.6%	-4.3
De Norfolk	10.4%	5.3%	-5.1
Torfaen	9.4%	4.2%	-5.2
Wakefield	16%	4.8%	-11.2

1.24 Mae hyn yn ei dro yn golygu bod llai o achosion o ychwanegu a dileu manylion wedi'u cynhyrchu drwy'r grŵp trin o'i gymharu â'r grŵp rheoli. Ni fyddai cofrestri sy'n cael eu llunio drwy ddefnyddio dull y grŵp trin mor gyflawn na chywir â'r rhai sy'n cael eu llunio drwy ddefnyddio proses arferol y canfas. Felly, byddai cyflawnder a chywirdeb y cofrestri hyn yn dirywio'n gyson dros amser. Er y gallai hyn gael ei wrthbwyso'n rhannol gan effaith gadarnhaol pleidleisiau o ddiddordeb mawr o bryd i'w gilydd ar geisiadau i gofrestru, byddai'r dull systematig o gynnal y cofrestri yn ddiffygiol.

Tabl 1.2 Lefel yr ychwanegiadau i'r cofrestr

Awdurdod Lleol	% yr ychwanegiadau i'r gofrestr		Gwahaniaeth
	Grŵp rheoli	Grŵp trin	
Barrow in Furness	2.7%	1.4%	-1.3
Blaenau Gwent	3.2%	2.4%	-0.8
Dwyrain Dyfnaint	5.3%	3.5%	-1.9
Newcastle Upon Tyne	7.1%	3.1%	-4
Ryedale	5.4%	3.2%	-2.2
De Holland	4.9%	3%	-1.9
De Norfolk	5%	3.5%	-1.5
Torfaen	3.9%	2.4%	-1.5
Wakefield	6.7%	3.4%	-3.3

Tabl 1.3 Lefelau'r dileadau yn y cofrestr

Awdurdod Lleol	% y dileadau yn y cofrestr		Gwahaniaeth
	Grŵp rheoli	Grŵp trin	
Barrow in Furness	3.5%	2.2%	-1.4
Blaenau Gwent	7.1%	4.1%	-3
Dwyrain Dyfnaint	6%	4.8%	-1.2
Newcastle Upon Tyne	8.3%	4%	-4.3
Ryedale	8.2%	4.7%	-3.6
De Holland	3.2%	2.7%	-0.5
De Norfolk	5.6%	4.4%	-1.2
Torfaen	6.3%	4.2%	-2.1
Wakefield	6.7%	5.4%	-1.3

Cost

1.25 Er bod rhai problemau gyda'r data ar gostau a ddarparwyd, mae'r duedd gyffredinol yn y data yn awgrymu bod model y Llythyr Hysbysu Cartref yn llai

costus na'r canfas arferol.⁶ Ymddengys bod y gwahaniaethau o ran cost yn cael eu gwireddu mewn tri maes:

- Roedd costau argraffu a phostio fesul uned yn is yn gyffredinol ar gyfer Llythyrau Hysbysu Cartrefi na Ffurflenni Ymholiad Cartrefi am fod y Llythyr Hysbysu Cartref yn ddogfen fyrrach i'w chynhyrchu a'i hanfon. Ymddengys bod costau uned ar gyfartaledd wedi bod £0.08 yn is i argraffu Llythyrau Hysbysu Cartrefi a £0.04 yn is i'w postio.
- Y prif reswm dros yr arbedion cost cyffredinol yw'r diffyg gweithgarwch dilynol a arbedodd gostau argraffu ac anfon llythyrau atgoffa.
- Roedd y diffyg gweithgarwch dilynol hwn hefyd yn golygu nad oedd llwybr y grŵp trin yn mynd i'r costau sy'n gysylltiedig â chanfasio o ddrws i ddrws a all fod yn elfen sylweddol o gyllideb y canfas.

Casgliad

1.26 Mae'n debygol y byddai'r model hwn yn sicrhau arbedion cost sylweddol o'i gymharu â phroses bresennol y canfas. Fodd bynnag, mae peidio ag ymgymryd â gweithgarwch dilynol (fel yn achos dull y grŵp trin) yn golygu bod lleihad sylweddol o ran faint o wybodaeth am newidiadau a gesglir. Mae'n aneffeithlon ceisio sicrhau ymateb gan bob cartref, os mai dim ond nifer lai sydd angen diweddarau manylion cofrestru, ond yn niffyg llwyr gweithgarwch o'r fath, caiff llai o wybodaeth ei chasglu gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

1.27 Er bod Llythyrau Hysbysu Cartrefi yn dal i fod yn ddefnyddiol o ran y ffordd y cânt eu defnyddio'n bennaf ar hyn o bryd – ar gyfer archwilio cofrestri cyn digwyddiadau arfaethedig – ni ddylid defnyddio'r dull hwn yn lle proses bresennol y canfas am y byddai'n cael effaith negyddol ar gyflawnder a chywirdeb y cofrestri.

Model 2: Canfasio drwy e-bost

Y model

1.28 Profodd y model hwn a allai e-bostio fod mor effeithiol â chysylltiadau drwy'r post, neu'n fwy effeithiol, o ran casglu gwybodaeth am etholwyr a hefyd fod yn broses ratach a chyflymach i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ei rheoli ar yr un pryd. Yn y model hwn, roedd y grŵp trin yn cynnwys dwy broses ar wahân.

- Lle roedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn **dal cyfeiriad e-bost** (o leiaf un cyfeiriad e-bost unigol ar gyfer cartref), anfonwyd Ffurflen

⁶ Un broblem yw, lle y cymhwysodd cynlluniau peilot ddull y grŵp trin at weddill eu cofrestr (y cartrefi nas neilltuwyd i'r grŵp rheoli na'r grŵp trin) fod costau argraffu'r Llythyrau Hysbysu Cartrefi i gartrefi nad oeddent yn y grŵp trin wedi'u cynnwys yn y data ar gostau ar gyfer y cynllun peilot. Mae'n bosibl bod yr arbedion maint yma, o gymharu ag argraffu'r nifer lai o Ffurflenni Ymholiad Cartrefi, yn cael rhywfaint o effaith ar y costau uned a nodwyd.

Ymholiad Cartref gychwynnol drwy e-bost. Yna, anfonwyd llythyr atgoffa drwy e-bost ac wedyn llythyr atgoffa drwy'r post ac yn olaf cynhaliwyd ymweliad â'r cartref yn ôl yr angen.

- Lle **nad** oedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn **dal unrhyw gyfeiriad e-bost** yna anfonwyd Ffurflen Ymholiad Cartref gychwynnol drwy'r post. Yna, anfonwyd llythyr atgoffa drwy'r post ac wedyn cynhaliwyd ymweliad â'r cartref.

Ein canfyddiadau

Yr effaith ar y cofrestri

1.29 Yn y model hwn, yn wahanol i fodel y Llythyr Hysbysu Cartref, nid oes fawr ddim gwahaniaeth yn lefel newidiadau cartrefi yn y grŵp rheoli a'r grŵp trin. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd yn dangos lefel is o newidiadau yn y grŵp trin ond roedd y gwahaniaethau hyn yn eithaf bach yn aml. Mae hyn hefyd yn wir am y gwahaniaethau o ran lefelau ychwanegiadau a dileadau rhwng y grŵp rheoli a'r grŵp trin.

Tabl 1.4 Cartrefi yn rhoi gwybod am newidiadau i fanylion cofrestredig

Awdurdod Lleol	% y cartrefi a roddodd wybod am newid		Gwahaniaeth
	Grŵp rheoli	Grŵp trin	
Caerfaddon	15.3%	15.6%	0.3
Coventry	13.4%	12%	-1.4
Dyffrynnoedd Swydd Derby	10.5%	10%	-0.5
Hounslow	19.1%	17.2%	-1.9
Woking	11.3%	11.2%	-0.1

1.30 Mae'n fwy anodd dod i gasgliadau clir yn y model hwn gan fod sawl gwahaniaeth o'r grŵp rheoli – y defnydd o e-bost mewn un broses ac absenoldeb cam atgoffa yn y llall. Mae'n debygol bod y ddau wahaniaeth hyn wedi cyfrannu at y lefelau ychydig yn is o newidiadau cartrefi a nodwyd yn y grŵp trin. Fodd bynnag, o ystyried y cyfraddau ymateb cyffredinol, yn ogystal â chyfran yr ymatebion newid, dengys mai cyfyngedig oedd effaith y camau e-bost.

1.31 Ym mhob un o'r cynlluniau peilot, roedd cyfraddau ymateb ar y cam e-bostio yn gymharol isel, er enghraifft, yng Nghaerfaddon cafwyd cyfradd ymateb o 55% ar gyfer y ddau gam cyntaf drwy'r post i'r rhai heb gyfeiriad e-bost ond cafwyd cyfradd ymateb o 32% ar gyfer y ddau gam cyfatebol drwy e-bost (cafwyd cyfradd ymateb o 69% ar gyfer y ddau gam cyntaf y grŵp rheoli).

1.32 Fel y dengys Tabl 1.5 isod, caiff hyn ei adlewyrchu hefyd yng nghyfran yr ymatebion newid a nodwyd yn y camau e-bostio o'u cymharu â'r camau drwy'r post. Roedd pedwar cam i lwybr e-bostio'r grŵp trin – dau drwy e-bost a dau drwy'r post – ac yng Nghaerfaddon, er enghraifft, cyfrannodd y camau

e-bostio 32% o gyfanswm yr ymatebion newid a chyfrannodd y camau drwy'r post 68%.

Tabl 1.5 Ymatebion newid cronol fesul cam

Llwybr 1 y grŵp trin	Caerfaddon	Coventry	Dyffrynnoedd Swydd Derby	Hounslow	Woking
Ffurflen Ymholiad Cartref	38.5%	24.7%	53.7%	37.9%	38.2%
Llythyr atgoffa (drwy'r post)	55.1%	47.1%	90.8%	63.0%	55.7%
Ymweliad personol	100%	100%	100%	100%	100%
Llwybr 2 y grŵp trin					
E-bost cychwynnol	15.4%	11.5%	18.1%	22.1%	15.6%
E-bost atgoffa	31.6%	22.6%	26.4%	30.5%	23.4%
Llythyr atgoffa (drwy'r post)	49.7%	46.5%	91.4%	64.1%	50.1%
Ymweliad personol	100%	100%	100%	100%	100%

1.33 Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod canfasio drwy e-bost yn unig yn annhebygol o fod yn ddull amgen effeithiol yn lle'r cysylltiadau drwy'r post a'r ymweliadau â chartrefi a geir ar hyn o bryd. Mae cyfyngiad o hyd hefyd o ran cyrhaeddiad canfasio drwy e-bost oherwydd mae'n amlwg bod angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddal o leiaf un cyfeiriad e-bost fesul cartref. Roedd cyfran y cyfeiriadau e-bost a ddaliwyd yn amrywio'n sylweddol yn y cynlluniau peilot (roedd gan rhwng 35% a 49% o gartrefi'r grŵp trin gyfeiriad e-bost) ac mae'n debygol o amrywio hefyd ymhlith awdurdodau lleol ym Mhrydain Fawr.

Cost

1.34 Nid yw'n syndod bod y data a'r adborth o bob ardal yn awgrymu ei bod yn llai costus i awdurdodau anfon e-byst o gymharu ag anfon ffurflenni a llythyrau atgoffa drwy'r post.

1.35 Roedd y cyfraddau ymateb is i'r camau e-bostio yn golygu bod angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gysylltu â mwy o gartrefi yn ddiweddarach yn ystod y broses. Er enghraifft, roedd angen mwy o ymweliadau â chartrefi ar gam olaf y broses e-bostio o gymharu â cham olaf y broses nad oedd yn cynnwys e-bostio. O ganlyniad i hyn, cynyddodd y costau a oedd yn gysylltiedig â chanfasio personol.

1.36 Fodd bynnag, ar y cyfan, ymddengys bod y model hwn yn arbed costau o'i gymharu â'r canfas arferol ond ymddengys bod y gwahaniaethau o ran costau a nodwyd yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd. Nid yw'n amlwg o'r data beth sy'n achosi'r gwahaniaethau hyn ac mae hyn, ynghyd â'r nifer fach o gynlluniau peilot, yn awgrymu y dylem fod yn ofalus cyn dod i gasgliadau rhy benodol ynglŷn â lefelau arbedion tebygol.

Casgliad

1.37 Yn gyffredinol, roedd y model hwn bron â bod mor llwyddiannus â'r canfas presennol o ran casglu gwybodaeth am newidiadau cartrefi. Fodd bynnag, nid oedd y camau cysylltu drwy e-bost eu hunain mor effeithiol o ran sicrhau ymatebion. Er gwaethaf hyn, nid oes rheswm dros awgrymu na ellid defnyddio canfasio drwy e-bost fel elfen o fewn proses ganfasio ehangach – gan ganiatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddewis ei ddefnyddio fel adnodd lle y bo'n briodol – yn enwedig gan fod nifer y cyfeiriadau e-bost sydd ar gael i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn debygol o gynyddu dros amser.

Model 3: Canfasio dros y ffôn

Y model

1.38 Nod y model hwn oedd canfod a allai ffonio cartrefi fod mor effeithiol â chysylltiadau drwy'r post, neu'n fwy effeithiol, a hefyd gynnig proses ratach a chyflymach i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ei rheoli ar yr un pryd. Yn y model hwn, roedd y grŵp trin yn cynnwys dwy broses.

- Lle **roedd rhif ffôn yn cael ei ddal** (o leiaf un fesul cartref) anfonwyd Ffurflen Ymholiad Cartref gychwynnol drwy'r post. Yna, cafwyd galwad atgoffa dros y ffôn ac wedyn llythyr atgoffa arall, terfynol drwy'r post yn ôl yr angen.
- Lle **nad oedd rhif ffôn yn cael ei ddal** anfonwyd Ffurflen Ymholiad Cartref gychwynnol drwy'r post. Yna, anfonwyd llythyr atgoffa drwy e-bost ac yn olaf cynhaliwyd ymweliad â'r cartref/dosbarthwyd nodyn atgoffa â llaw.

Ein canfyddiadau

Yr effaith ar y cofrestru

1.39 Fel y model e-bostio, nid oes fawr ddim gwahaniaeth rhwng y grŵp rheoli a'r grŵp trin o ran lefel newidiadau cartrefi a nodwyd. Mae hyn hefyd

wedi'i adlewyrchu yn y mân wahaniaethau o ran lefelau ychwanegiadau a dileadau rhwng y ddau grŵp.

Tabl 1.6 Cartrefi yn rhoi gwybod am newidiadau i fanylion cofrestredig

Awdurdod Lleol	% y cartrefi a roddodd wybod am newid		Gwahaniaeth
	Grŵp rheoli	Grŵp trin	
Dumfries a Galloway	4.2%	3.9%	-0.3
Luton	15.8%	15.8%	0
De Swydd Rydychen a Dyffryn y Ceffyl Gwyn ⁷	10.3%	9.8%	-0.5

1.40 Hefyd, yn yr un modd â'r model e-bostio, mae'n heriol dod i gasgliadau clir ar elfennau dull y grŵp trin am fod sawl gwahaniaeth i ddull y grŵp rheoli. Fodd bynnag, dengys data, a nodir yn Nhabl 1.7, fod y cyfraddau ymateb i'r alwad atgoffa dros y ffôn mewn dwy o'r tair ardal beilot dipyn yn uwch na'r llythyr atgoffa drwy'r post.

1.41 Nid yw'n amlwg pam y cafodd De Swydd Rydychen a Dyffryn y Ceffyl Gwyn ganlyniad sylweddol wahanol i'r ardaloedd peilot eraill ar gyfer y cam ffonio. Roedd cyfran uwch o gartrefi â rhif ffôn yn yr ardal ond ni nodwyd bod cyfran uchel yn anghywir, er enghraifft, a allai esbonio'r gwahaniaeth. Llwyddodd i gael cyfradd uchel ar y cam cychwynnol, cyn yr alwad atgoffa dros y ffôn, a allai fod wedi golygu ei fod yn ffonio grŵp a oedd yn llai tebygol o ymateb. Fodd bynnag, cafodd Dumfries a Galloway gyfradd uchel debyg ar y cam cychwynnol ond cafodd ymateb da i'w alwadau ffôn.

Tabl 1.7 Cyfradd ymateb yn ôl camau cysylltu cymaradwy

Awdurdod Lleol	Grŵp rheoli	Grŵp trin	
	Atgoffa am y tro cyntaf - drwy'r post	Atgoffa am y tro cyntaf - drwy'r post	Atgoffa am y tro cyntaf - dros y ffôn
Dumfries a Galloway	33.8%	27.8%	56.8%
Luton	24.3%	22.9%	59.7%

⁷ Noder: Yn ei grŵp trin, hepgorodd De Swydd Rydychen a Dyffryn y Ceffyl Gwyn y cam ymweld â chartref i'r cartrefi hynny heb rif ffôn ac anfonwyd ail lythyr atgoffa drwy'r post yn lle hynny. Mae'n bosibl y byddai wedi gweld cyfran fwy o gartrefi yn nodi newid pe bai wedi ymweld â chartrefi.

De Swydd Rydychen a Dyffryn y Ceffyl Gwyn	36.3%	31.7%	11.1%
---	-------	-------	-------

Cost

1.42 Mae'r data sydd ar gael ar gostau ar gyfer y model hwn yn awgrymu y gallai fod yn rhatach na chanfas arferol. Fodd bynnag, mae'n anodd dod i gasgliadau clir am sawl rheswm. Yn gyntaf, cyfyngedig yw'r set ddata a gynigir gan dair ardal beilot fel sail ar gyfer unrhyw gasgliadau ehangach. Yn ail, roedd costau sefydlu yn gysylltiedig â chanfasio dros y ffôn ac nid yw'n dasg syml dadgyfuno'r rhain oddi wrth gostau rhedeg arferol.

1.43 Mae'r data sydd ar gael yn awgrymu y gall fod yn bosibl i'r model hwn arbed costau ond gyda'r rhybudd y byddai angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol dybio y byddent yn mynd i gostau sefydlu cychwynnol.

Casgliad

1.44 Yn gyffredinol, roedd y model hwn mor llwyddiannus â phroses bresennol y canfas ar y cyfan o ran casglu newidiadau cartrefi. Roedd y camau ffonio eu hunain, ac eithrio De Swydd Rydychen a Dyffryn y Ceffyl Gwyn, yn fwy effeithiol na'r camau cyfatebol drwy'r post.

1.45 Dywedodd awdurdodau peilot wrthym fod rhai problemau o ran y trefniadau yr oedd eu hangen ar gyfer canfasio dros y ffôn. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i staff craidd weithio y tu allan i oriau arferol neu, os oedd canolfan alwadau yn cael ei defnyddio, sicrhau bod y prosesau cywir yn cael eu dilyn. Mewn sawl achos, problemau sefydlu oedd y rhain, gan mai hwn oedd y tro cyntaf i'r awdurdod lleol geisio canfasio dros y ffôn.

1.46 Mae'r cynllun peilot hwn yn awgrymu y byddai'n fuddiol pe bai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gallu dewis cynnwys cam ffonio yn eu prosesau canfasio. Fodd bynnag, erys cwestiwn i ba raddau y gellir defnyddio'r dull hwn ar raddfa fwy. Dywedodd un ardal beilot wrthym, er bod ei chynllun peilot yn brofiad cadarnhaol, y byddai'n anodd defnyddio canfasio dros y ffôn ar gyfer ei chofrestr gyfan (yn hytrach na'r grŵp trin peilot), a hynny am na fyddai ei chanolfan alwadau yn gallu ymdopi â nifer y galwadau y byddai angen eu gwneud. Dywedodd ardal arall, a ymgwymerodd â'r galwadau ffôn yn fewnol, y gallai wneud hynny am fod gofod swyddfa ar gael dros dro i'r canfaswyr ffôn ar y pryd ond na fyddai ar gael fel arfer.

1.47 Efallai na fydd y problemau hyn yn codi i bob awdurdod lleol ond maent yn awgrymu dau beth. Yn gyntaf, un ffordd bosibl o ddefnyddio canfasio dros y ffôn yw er mwyn helpu i fynd i'r afael ag eiddo nad yw wedi ymateb tua diwedd unrhyw broses ganfasio pan fydd niferoedd yn llai. Yn ail, efallai y bydd heriau ymarferol yn codi o ran unrhyw ganfasio dros y ffôn, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol ym mhob awdurdod lleol.

Model 4: Canfasio a arweinig gan ddata

Y model

1.48 Bwriadwyd i'r model hwn brofi a allai Swyddogion Cofrestru Etholiadol, drwy ddefnyddio data i nodi cartrefi lle na fu unrhyw newid ymhlith y preswylwyr, ganfasio'n fwy effeithlon drwy dargedu ardaloedd lle ceir mwy o newid.

1.49 Aeth yr ardaloedd peilot a oedd yn profi'r modwl hwn ati i baru'r cofnodion ar y gofrestr ar gyfer cartrefi eu grŵp trin yn erbyn data a oedd yn cael eu dal yn lleol, gan gynnwys y dreth gyngor a budd-dal tai. O fewn y grŵp trin, roedd tri llwybr posibl i gartref.

- Lle **y tybiwyd bod cartref wedi'i baru** anfonwyd Llythyr Hysbysu Cartref heb unrhyw weithgarwch dilynol.
- Lle **na ellid paru cartref ac roedd cyfeiriad e-bost ar gael** yna anfonwyd Ffurflen Ymholiad Cartref gychwynnol drwy e-bost. Yna, anfonwyd llythyr atgoffa drwy e-bost ac wedyn lythyr atgoffa drwy'r post ac yn olaf cynhaliwyd ymweliad â'r cartref yn ôl yr angen.
- Lle **na ellid paru cartref ac nad oedd cyfeiriad e-bost ar gael** yna anfonwyd Ffurflen Ymholiad Cartref drwy'r post. Yna, anfonwyd llythyr atgoffa drwy'r post ac yn olaf cynhaliwyd ymweliad â'r cartref.

Ein canfyddiadau

Yr effaith ar y cofrestr

1.50 Aeth pob ardal beilot ati mewn ffordd wahanol i bara'r data fel y'i nodir isod. Hefyd, roedd yr ardaloedd peilot yn amrywio yn y prosesau manwl a ddefnyddiwyd ganddynt i baru data, er enghraifft sut y cafodd paru anunion ('niwlog') eu trin. Roedd yr amrywiadau hyn, ynghyd â demograffeg wahanol yr ardaloedd peilot, er enghraifft, yn golygu bod y cyfraddau paru cyffredinol a gyflawnwyd yn amrywio'n sylweddol.

Tabl 1.8 Lefelau paru data a chrynodeb o'r dulliau paru

Awdurdod Lleol	Y gyfradd baru	Ffynonellau data	Manylion
----------------	----------------	------------------	----------

Birmingham	46%	Y dreth gyngor	<ul style="list-style-type: none"> • 75% trothwy paru • Dim ond enw talwr y bil y mae'r dreth gyngor yn ei ddal
Camden	66%	Warws data'r cyngor – 16 o ffynonellau gan gynnwys 'statws ymddiriedaeth'	<ul style="list-style-type: none"> • 100% trothwy paru • Heb gynnwys cofnodion â 'statws ymddiriedaeth' o dan 85%
Glasgow	84%	Y dreth gyngor a chanlyniadau canfas 2016	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd manylion y broses baru yn dibynnu ar nifer yr etholwyr mewn cartref a ffactorau eraill, e.e. os mai cyrhaeddwr ydoedd neu os oedd etholwyr yn rhannu cyfenwau.
Salford	50%	Y dreth gyngor	<ul style="list-style-type: none"> • Dull trothwy amrywiol e.e. 100% ar gyfer cartrefi 1 neu 2 berson, 66.6% ar gyfer odrifau'n fwy nag un – 66.66%, 75% ar gyfer eilrifau'n fwy na dau
De Lakeland	64%	Y dreth gyngor	<ul style="list-style-type: none"> • 100% trothwy paru
Sunderland	58%	Y dreth gyngor a budd-dal tai	?ADD

1.51 Roedd y sgiliau perthnasol, i sefydlu a rheoli ymarfer para data, hefyd yn amrywio rhwng pob awdurdod lleol. Mewn rhai awdurdodau, roedd timau eraill o fewn y cyngor – swyddogaethau TG neu archwilio – yn cynnig yr arbenigedd. Mewn eraill, roedd y tîm gwasanaethau etholiadol yn meddu ar y sgiliau i reoli'r ymarfer paru'n uniongyrchol. Yn olaf, mewn eraill cafodd y gwaith ei osod ar gontract allanol i gyflenwr meddalwedd rheoli etholiadol. Byddai angen ystyried yr amrywiad hwn o sgiliau ac adnoddau pe bai'r elfen o'r model hwn sy'n ymwneud â pharu data yn cael ei derbyn a'i datblygu fel rhan o'r gwaith i ddiwygio'r canfas.

1.52 Fel gyda'r modelau eraill, gan fod cartrefi'r grŵp rheoli a'r grŵp trin wedi cael eu dewis ar hap, ni ddylai fod gwahaniaethau systematig rhyngddynt. Pe bai model y grŵp trin yn gweithio cystal â phroses y grŵp rheoli, neu'n well na hi, felly dylai'r canlyniadau ddangos yr un lefel neu lefel well o newidiadau cartrefi. Fodd bynnag, fel y dengys y ffigurau isod, gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn ymatebion newid ar gyfer y grŵp trin ym mhob un o'r ardaloedd peilot.

Tabl 1.9 Cartrefi yn rhoi gwybod am newidiadau i fanylion cofrestredig

Awdurdod Lleol	% y cartrefi a roddodd wybod am newid		Gwahaniaeth
	Grŵp rheoli	Grŵp trin	
Birmingham	15.2%	9.4%	-5.8
Camden ⁸	15.1%	5.5%	-9.6
Glasgow ⁹	12.7%	4.5%	-8.2
Salford	13.3%	9.5%	-3.8
De Lakeland	13.2%	10.1%	-3.1
Sunderland ¹⁰	10.8%	9%	-1.8

1.53 Fel yn achos model y Llythyr Hysbysu Cartref, mae'r gwahaniaethau yn lefelau newidiadau cartrefi hefyd wedi'u hadlewyrchu yng nghyfrannau ychwanegiadau a dileadau lefel unigol o ran y cofrestr.

Tabl 1.10 Lefel yr ychwanegiadau i'r cofrestr

Awdurdod Lleol	% yr ychwanegiadau i'r gofrestr		Gwahaniaeth
	Grŵp rheoli	Grŵp trin	
Birmingham	4%	2.7%	-1.3
Camden	6.7%	3.6%	-3.1
Glasgow ¹¹	5.5%	4.3%	-1.2
Salford	6.7%	5%	-1.7
De Lakeland	5.7%	4.3%	-1.4
Sunderland	4.4%	4%	-0.4

⁸ Noder: Ymgwymerodd Camden â phroses y grŵp trin yn gywir ond, oherwydd problem gyda wal dân, bu angen iddynt anfon eu negeseuon e-bost o'r tu allan i'w system meddalwedd rheoli etholiadol. O ganlyniad, ni chasglwyd unrhyw ddata ar y negeseuon e-bost hyn ac nid yw'r cam e-bostio wedi'i gynnwys yn y ffigurau a gyflwynir yma. Mae'r cartrefi a neilltuwyd i'r cam hwnnw wedi cael eu heithrio'n llwyr, h.y. nid yw'r data coll yn golygu bod y data yma yn gamarweiniol ac mae'n dal i roi amcan da o effaith y modwl hwn.

⁹ Noder: Mae lefel newidiadau cartrefi a gofnodwyd gan Glasgow yn y grŵp trin yn danamcangyfrif. Cafodd etholwyr a ymatebodd i Lythyr Hysbysu Cartref ar-lein eu cyfeirio at safle cofrestru gov.uk lle y gallent gofrestru eu hunain yn uniongyrchol. Lle y defnyddiwyd y llwybr hwn, ni chofnodwyd unrhyw ymateb yn y system meddalwedd rheoli etholiadol ar gyfer y cyfeiriad hwnnw. Mae'n debygol iawn y byddai lefel newidiadau cartrefi a gofnodwyd wedi bod yn uwch pe bai'r ymatebion hyn wedi cael eu cofnodi.

¹⁰ Noder: Nid anfonodd Sunderland ail lythyr atgoffa drwy'r post i gartrefi roedd yn dal cyfeiriad e-bost ar eu cyfer. Yn lle hynny, symudodd ar unwaith i'r ymweliad â'r cartref (gan leihau nifer y cysylltiadau i dri o'r pedwar arfaethedig). Mae hyn yn debygol o fod wedi achosi ychydig o ostyngiad yn rhai o ganlyniadau'r grŵp trin, er enghraifft lefel yr ychwanegiadau a dileadau a gyflawnwyd.

¹¹ Nid effeithir ar ffigurau ychwanegiadau a dileadau Glasgow yn yr un ffordd â'r rhai ar gyfer newidiadau cartrefi. Fodd bynnag, mae'n amhosibl dweud a fyddai mwy neu lai o ychwanegiadau neu ddileadau wedi bod pe na bai Glasgow wedi cyfeirio unigolion at y safle cofrestru ar-lein.

Tabl 1.11 Lefelau'r dileadau yn y cofrestri

Awdurdod Lleol	% y dileadau yn y cofrestri		Gwahaniaeth
	Grŵp rheoli	Grŵp trin	
Birmingham	6.1%	5.1%	-1
Camden	12.9%	6.3%	-6.6
Glasgow	7.2%	6.1%	-1.1
Salford	8.4%	7.3%	-1.1
De Lakeland	5.5%	5.3%	-0.2
Sunderland	6.6%	6%	-0.6

1.54 Mae'r gwahaniaethau hyn yn deillio o effeithiau cyfun cam paru data amherffaith ac yna'r broses ddilynol a oedd ond yn cynnwys un cysylltiad. Mae'r data yn awgrymu y byddai cofrestri a luniwyd drwy ddefnyddio'r dull gweithredu hwn yn mynd yn llai cywir a chyflawn dros amser gan na fyddent yn gallu nodi newidiadau cyfredol yn y boblogaeth. Byddai cynnydd yn nifer y rhai sy'n cofrestru ar adeg etholiadau pwysig yn dal i gael effaith gadarnhaol ar y cofrestri ond ni fyddai'r dull systematig o'u diweddarau mor effeithiol â'r canfas presennol.

1.55 Fodd bynnag, mae gan y syniad o ganfasio a arweinir gan ddata botensial – yn dibynnu ar ba mor effeithiol y gellir gwneud y cam paru data. Ym model y Llythyr Hysbysu Cartref, neilltuwyd cartrefi ar hap ond yn y model hwn anfonwyd Llythyr Hysbysu Cartref i gartref os oedd tystiolaeth (drwy baru data) a oedd yn awgrymu nad oedd angen unrhyw newidiadau i gofnodion y gofrestr ar gyfer y cyfeiriad hwnnw. Pe bai'r ymarfer paru data yn effeithiol o ran nodi cartrefi lle roedd preswylwyr yn llai tebygol o fod wedi newid, yna byddem yn disgwyl i ddata'r cynllun peilot ddangos llai o newidiadau yn cael eu cofnodi mewn ymateb i'r Llythyrau Hysbysu Cartrefi hyn o gymharu â'r Llythyrau Hysbysu Cartrefi a anfonwyd heb dargedu.


1.56 Mae hyn yn wir yn fras, fel y dengys y siart isod ar gyfran y newidiadau cartrefi a gofnodwyd. Mae'r colofnau coch yn nodi'r cartrefi a gafodd eu paru yn y cynlluniau peilot a arweinir gan ddata ac mae'r colofnau glas yn nodi cartrefi'r grŵp trin yn y cynlluniau peilot a oedd yn defnyddio Llythyrau Hysbysu Cartrefi.¹²

1.57 Er nad yw'r canlyniadau yn unffurf – nid yw pob un o'r canlyniadau is ar gyfer cynlluniau peilot a arweinir gan ddata – ni fyddem yn disgwyl iddynt fod yn unffurf oni bai bod yr ymarfer paru data yn berffaith. Bydd gan rai awdurdodau lleol lefelau uwch o newidiadau cartrefi oherwydd natur eu poblogaethau. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod ardaloedd fel Ryedale a Thorfaen wedi cofnodi lefelau uwch o newid na Camden yn yr ymarfer hwn yn awgrymu bod yr ymarfer paru data yn Camden o leiaf yn rhannol lwyddiannus

¹² Noder: Nid yw Glasgow wedi'i chynnwys yn y dadansoddiad hwn oherwydd y mater a nodwyd uchod o ran tanamcangyfrif cartrefi a nododd newidiadau.

o ran nodi cartrefi lle roedd yn llai tebygol y byddai angen iddynt ddiweddarau manylion.

Ffigur 1.1 Canran cartrefi'r grŵp trin a nododd newid i fanylion y cartref (model y Llythyr Hysbysu Cartref a'r model a arweinir gan Ddata)



Costau

1.58 Mae dwy elfen allweddol i'r cynllun peilot hwn o ran arbedion cost posibl: y broses paru data ei hun a chost y gweithgarwch dilynol. O ran gweithgareddau dilynol, mae'r canfyddiadau yn debyg i fodel y Llythyr Hysbysu Cartref – sef bod lleihau nifer y cysylltiadau â chartrefi yn lleihau costau cynnal y canfas. Felly, po fwyaf y gyfran o gartrefi sy'n cael eu trin fel y grŵp trin a'u paru, y mwyaf o arbedion posibl fydd o gymharu â'r canfas arferol.

1.59 Mae'n llai amlwg sut i asesu cost y broses baru ei hun. Mewn rhai ardaloedd defnyddiwyd seilwaith presennol yr awdurdod lleol ac felly cyfyngedig oedd y gost i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mewn ardaloedd eraill, roedd angen cymorth ychwanegol, er enghraifft, gan gyflenwr meddalwedd rheoli etholiadol, ac aed i gostau uwch. Mae hyn hefyd nid yn unig yn ymwneud â chostau sefydlu cychwynnol gan fod y dystiolaeth yn awgrymu y byddai angen o hyd i rai ardaloedd brynu cymorth bob tro y byddent yn cynnal yr ymarfer hwn.

1.60 Yn gyffredinol, awgryma'r data fod gan y model hwn y potensial i gynhyrchu arbedion cost i Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Fodd bynnag, byddai'r amgylchiadau penodol ym mhob awdurdod lleol, mewn perthynas ag adnoddau paru data, yn debygol o effeithio ar ba mor gosteffeithiol yw'r model ar gyfer ardaloedd gwahanol.

Casgliadau

1.61 Mae canlyniadau'r model hwn yn dangos na fyddai, fel y'i profwyd, yn ddewis addas yn lle proses y canfas blynyddol presennol. Byddai'r lefelau is o newidiadau a gofnodwyd, dros amser, yn cael effaith negyddol ar gyflawnder

a chywirdeb y cofrestri etholwyr. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod potensial yn y syniad y tu ôl i'r model hwn – defnyddio data i wella effeithlonrwydd canfasio. Mae'r wybodaeth gan yr awdurdodau peilot hefyd yn awgrymu bod y dull gweithredu hwn wedi arwain at arbedion cost – yn enwedig o ran lleihau faint o waith dilynol y gallai fod angen ei wneud gyda chartrefi lle y parwyd data.